Dechrau'r Ysgol yng Nghymru

Mae taith eich plentyn i'r ysgol yn dechrau gartref.



Cyflwyniad

Rydym yn deall bod pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymder/ei chyflymder ei hun, a'n bod ni i gyd yn dysgu o'n genedigaeth. Pan ddaw'n amser dechrau'r ysgol, bydd angen mwy o gymorth ar rai plant nag eraill.

Mae sgiliau allweddol* y mae ysgolion yn disgwyl i blant ddechrau eu dysgu cyn eu diwrnod cyntaf. Trwy ymarfer y rhain byddwch yn sicrhau bod taith eich plentyn i'r Dechrau'r Ysgol yng Nghymru mor gadarnhaol â phosibl.

Os yw eich plentyn mewn meithrinfa yn barod, mewn lleoliad cyn-ysgol neu gyda gwarchodwr plant, bydd y gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio gyda chi a'ch plentyn i'w helpu i baratoi.

Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud gartref i adeiladu hyder ac annibyniaeth eich plentyn, a'i helpu i deimlo'n barod yn emosiynol ac yn ymarferol i ddechrau'r ysgol.

*Rydym yn galw'r ddogfen hon yn ddiffiniad 'Dechrau'r Dosbarth Derbyn'. Mae rhai pobl/sefydliadau'n cyfeirio at hyn fel 'bod yn barod ar gyfer yr ysgol'.

Sut allaf i helpu fy mhlentyn i baratoi?

Bydd gan eich plentyn nifer o weithgareddau ac arferion newydd i ddod i arfer â nhw pan fydd yn dechrau yn yr ysgol. Bydd angen iddo/iddi wneud rhai pethau'n fwy annibynnol nag o'r blaen.



Mae ymchwil yn dangos mai perthynas plentyn â'i reini yw'r ffactor pwysicaf yn ei ddatblygiad, ac mae llawer y gallwch chi ei wneud gartref.

Pan fydd eich plentyn adref gyda chi neu ofalwr arall, gallwch chi ymarfer fel teulu gyda gweithgareddau hwyliog (rydym wedi cynnwys dolenni ar ddiwedd yr adnodd hwn).

Mae rhai o'r sgiliau hyn yn cymryd amser i'w meistroli, felly mae'n beth da i'w cyflwyno nhw'n raddol yn eich arferion dyddiol.

Beth os oes gan fy mhlentyn anghenion ychwanegol?

- Os oes angen cymorth ychwanegol ar eich plentyn i ymgartrefu yn y Dechrau'r Ysgol yng Nghymru, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu cymaint o wybodaeth ag y bo modd â'i athro/athrawes newydd. Byddan nhw'n gallu gweithio gyda chi i ddod o hyd i strategaethau i gynorthwyo eich plentyn.
- Efallai y bydd angen mwy o gymorth ar blant a aned yn yr haf, neu'r rhai sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol (EAL).
- Os ydych chi'n gwybod neu'n amau bod gan eich plentyn anghenion addysgol arbennig (AAA), neu wahaniaethau neu oedi yn ei ddatblygiad, efallai na fydd yn gallu gwneud rhai o'r sgiliau yma ar hyn o bryd.
- Mae ymyrraeth gynnar yn gwneud gwahaniaeth mawr – gofynnwch i feithrinfa, ysgol neu ymwelydd iechyd eich plentyn, y ganolfan plant leol neu Ganolfan Deuluol am gymorth.

Gyda phwy allaf i siarad i gael cymorth?

Mae angen cymorth ar bob plentyn gan yr oedolion y maen nhw'n ymddiried ynddynt er mwyn iddyn nhw allu teimlo'n hyderus ac yn llawn cyffro am gychwyn yn y Dechrau'r Ysgol yng Nghymru.

Gall eich gofalwr plant/meithrinfa/tîm cyn-ysgol neu eich ymwelydd iechyd, canolfan plant neu ganolfan deuluol helpu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Ble allaf i ddod o hyd i ragor o adnoddau?

Rydym hefyd wedi llunio rhestr o sefydliadau ac adnoddau i'ch helpu chi a'ch plentyn i baratoi gyda'ch gilydd.

Gallwch agor y rhain ar-lein ar https://startingreception.co.uk.



Y diffiniad: sgiliau i'w hymarfer cyn dechrau'r Ysgol yng Nghymru

Mae sgiliau newydd yn cymryd amser i'w dysgu. Bydd ymarfer gartref yn helpu eich plentyn i symud i'r ysgol yn haws ac yn hyderus.

Dod yn fwy annibynnol




Gofalu amdanynt eu hunain

- ☑ Gwisgo/tynnu eu côt a'u hesgidiau
- ☑ Defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo
- ☑ Gwisgo heb fawr ddim help, e.e. ar ôl defnyddio'r toiled neu wneud ymarfer corff
- ☑ Defnyddio offer bwyta (e.e. fforc a llwy, gweill bwyta) ac yfed o gwpan agored
- ☑ Treulio amser i ffwrdd oddi wrthych chi, yn dysgu bod oedolion gofalgar eraill yn gallu gofalu amdanynt

Chwarae, creadigrwydd a chwilfrydedd

- ☑ Cymryd rhan mewn chwarae llawn dychymyg (e.e. chwarae rôl)
- ☑ Arlunio, paentio, lliwio a gludo
- ☑ Rhannu llyfrau stori, edrych ar luniau a siarad am y cymeriadau
- ☑ Archwilio'r byd o'u cwmpas (e.e. edrych yn ofalus ar y byd naturiol, chwarae'n ddiogel gyda gwrthrychau gartref)



Yn yr ysgol bydd eich plentyn yn cyfarfod â llawer o bobl newydd ac yn gwneud ffrindiau newydd. Dyma rai pethau i'w helpu nhw i baratoi:

Adeiladu perthynas a chyfathrebu

Bod gyda phobl eraill

- ☑ Ymarfer rhannu a chymryd tro gyda theganau
- ☑ Siarad â nhw ynglŷn â **sut** maen nhw'n teimlo a **pham**
- ☑ Mae edrych ar lyfrau stori gyda'ch gilydd a thrafod sut mae cymeriadau'n teimlo yn gallu bod yn ffordd dda o wneud hyn
- ☑ Dechrau adnabod beth mae pobl eraill yn ei deimlo, e.e. deall os yw cyfaill yn drist
- ☑ Eu hannog nhw i osod ffiniau iddynt eu hunain ac i eraill (e.e. gwybod sut i ddweud 'na')

Cyfathrebu ac iaith

- ☑ Cydganu gyda chaneuon a hwiangerddi
- ☑ Siarad yn hapus ag eraill am weithgareddau, profiadau a'r byd o'u cwmpas
- ☑ Dangos bod angen cymorth arnyn nhw drwy siarad yn glir (mewn Saesneg/ Cymraeg sylfaenol neu iaith arwyddion)
- ☑ Adnabod patrwm eu henw (fel eu bod yn gallu dod i hyd iddo ar eu peg cotiau neu ar eu siaced)

Gwrando a dangos diddordeb

- ☑ Talu sylw am gyfnodau byr o amser
- ☑ Gwrando ar gyfarwyddiadau syml a'u dilyn
- ☑ Parhau â thasg hyd yn oed pan mae'n anodd ac ailgydio os aiff pethau o chwith



Datblygiad corfforol




Symud am o leiaf tair awr y diwrnod


- Cerdded i fyny ac i lawr grisiau (un droed ar y tro, gan ddefnyddio'r wal i'w cynnal)
- Dringo, rhedeg, neidio a chwarae
- Dal pêl fawr (y rhan fwyaf o'r amser)
- Gwneud posau syml a gweithgareddau crefft, gan gryfhau eu gafael wrth dorri a gludo



Arferion iach



- Mynd i'r gwely tua'r un amser bob nos, deffro mewn pryd i baratoi ar gyfer yr ysgol
- Cyfyngu amser sgrîn i'r maint sy'n cael ei argymell bob dydd (gwelwch y cyngor)
- Bwyta deiet iach a rhoi cynnig ar fwydydd newydd
- Glanhau eu dannedd gyda phast dannedd fflworid ddwywaith y dydd (bydd angen i chi oruchwylio hyn nes byddant o leiaf 7 oed)



Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i bryderon am ddatblygiad fy mhlentyn?


- Os ydych chi'n pryderu am ddatblygiad eich plentyn, siaradwch â'ch gwarchodwr plant/meithrinfa/tîm cyn-ysgol, ymwelydd iechyd, canolfan blant leol neu ganolfan deuluol.
- Os oes gan eich plentyn unrhyw oedi yn ei ddatblygiad neu AAA (a amheuir neu wedi'i gadarnhau), siaradwch â'i feithrinfa, gwarchodwr plant, neu ymwelydd iechyd/meithrinfa/tîm cyn-ysgol ymhell cyn iddo/iddi dechrau'r Ysgol yng Nghymru a thrafodwch ei anghenion/hanghenion pan fyddwch yn dewis ysgolion.
- Gallwch weithio gyda lleoliad blynyddoedd cynnar eich plentyn i helpu'ch plentyn gyda hunanofal, rheoli emosiynau, sgiliau cymdeithasol, a chyfathrebu mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eu cyfnod datblygu.
- Efallai y bydd eisiau rhannu manylion am ei ddatblygiad/datblygiad arnoch, ei anghenion, beth sy'n ei gymell/ei chymell, beth allai achosi anawsterau, sut mae'n dysgu orau a pha strategaethau sy'n gweithio'n dda.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu gwybodaeth bwysig â phawb sy'n cynorthwyo eich plentyn, yn cynnwys ei athro/athrawes newydd.

Adnoddau i deuluoedd ag anghenion ychwanegol

Mae llawer o sefydliadau sy'n gallu eich cynorthwyo gyda gwybodaeth a strategaethau i'ch paratoi chi, eich plentyn a'i leoliad addysgol, gan sicrhau trosglwyddiad esmwyth a'i baratoi/pharatoi ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- https://www.familylives.org.uk
- https://speechandlanguage.org.uk
- https://dingley.org.uk
- https://www.kids.org.uk



Darganfod rhagor

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://startingschool.wales

Crëwyd y diffiniad hwn ar y cyd gan

Nodiadau:

Darganfod rhagor
I gael rhagor o wybodaeth, ewch ir **https://startingschool.wales**